



Gorfodi gollwng sbwriel a baw cŵn

Cadwch Gymru'n Daclus



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

Ymagwedd gyfannol tuag at LEQ – Sut i orfodi o ran gollwng sbwriel a baw cŵn

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn elusen annibynnol gyda'r genhadaeth o annog gweithredu lleol i ddiogelu a gwella ein hamgylchedd, gan gyfrannu tuag at ddyfodol cynaliadwy. Rydym yn cyflwyno:

- Rhaglenni sydd yn gwella ansawdd a chynaliadwyedd yr amgylchedd
- Cyngor ac arbenigedd technegol i'r Llywodraeth a phartneriaid
- Ffordd o droi polisi strategol yn weithredu lleol effeithiol
- Ymgyrchoedd ar ystod o faterion amgylcheddol.

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn gweithredu ar lefelau rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Ein nod yw dylanwadu ar newid ymddygiad trwy ddatblygu polisi ac ymgyrchoedd, addysg amgylcheddol ac ymgysylltu cymunedol.

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn estyn allan at wraidd cymunedau ledled Cymru. Rydym yn cyflwyno rhaglenni wedi eu teilwra'n benodol at gefnogi pobl Cymru ac sy'n gwella ansawdd a chynaliadwyedd yr amgylchedd lle'r ydym yn byw ac yn gweithio. Mae'r amgylchedd lleol yn ganolog i'n lles ac mae goblygiadau i bopeth o'n hiechyd i'n heconomi a'n gwerthoedd diwylliannol.

Rydym wedi datblygu ymagwedd gyfannol tuag at Ansawdd yr Amgylchedd Lleol sy'n seiliedig ar ataliaeth, mewnwelediad ymddygiadol, cydweithredu a phartneriaeth. Mae rhan o'r ymagwedd hon yn cynnwys cymhwysu pwerau gorfodi ond gwyddom o'n profiad mewn cymunedau a'n gweithio gyda staff gorfodi rheng flaen ar draws Cymru na all gorfodi weithio yn ynysig ac mae'n rhaid iddo fod yn rhan o strategaeth ymgysylltu ac atal ehangach. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar adeg o doriadau sylweddol i gyllidebau awdurdodau lleol.

Mae llawer o awdurdodau lleol wedi sefydlu strategaethau ataliol er bod llawer o'r rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar ymagweddau o'r brig i lawr, abwyd a/neu ffon. Er enghraifft, mae rhaglenni fel arfer yn hysbysu pobl am effaith eu hymddygiad ar yr amgylchedd, neu'n ceisio ysgogi neu beidio ysgogi ymddygiad trwy bethau fel cynlluniau gwobrwyo gyda phwyntiau ar gyfer ailgylchu neu ddirwyon/gorfodi ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Ymddengys bod gorfodi yn arbennig yn dal yn strategaeth boblogaidd i atal ymddygiad. Canfu arolwg Cyflwr y Farchnad APSE, 2015 fod '56% o'r ymatebwyr o'r farn y bydd cynnydd mewn gorfodaeth/hysbysiadau a gyhoeddir yn y 2-3 blynedd nesaf' ac roeddent yn 'teimlo bod gorfodi wedi dod yn fwy derbyniol yn gyhoeddus ac yn wleidyddol yn y blynyddoedd diweddar'. Yn ogystal, caiff ei gymryd gan gynghorwyr i fod yn ffordd effeithiol o newid ymddygiad ac yn ffordd boblogaidd o ddangos eu bod yn gwneud 'safiad cadarn' ynghylch mynd i'r afael â mater.ⁱ Fel y soniodd un swyddog cyngor mewn perthynas â baw cŵn, "am y chwe mis diwethaf mae wedi bod yn flaenoriaeth uchel iawn, rydym wedi cael llawer o gŵynion a mewnbwn gan gynghorwyr, ac mae pwysau i 'wneud rhywbeth am faw cŵn' ac yn arbennig gwneud mwy o orfodi."ⁱⁱ

Fodd bynnag, nid strategaethau fel hyn yw'r ffordd fwyaf effeithiol, heb sôn am fod yn gost effeithiol, bob amser, o greu newid parhaus o ran ymddygiad, yn arbennig pan gânt eu defnyddio ar eu pen eu hunain.ⁱⁱⁱ

Mae ymchwil yn awgrymu nad oes unrhyw gydberthyniad uniongyrchol rhwng mwy o orfodi a chymunedau hapusach, neu lanach.^{iv} Felly, wrth gymhwysu gorfodi i faterion LEQ, mae'n bwysig adolygu diben gorfodi a dylunio strategaethau gorfodi 'deallus' sydd yn mynd i'r afael yn benodol â diben newid mewn ymddygiad. Nid yw hyn er mwyn i orfodi barhau'n effeithiol ac â ffocws yn unig, ond ei ddiben hefyd yw cefnogi gwaith staff gorfodi rheng flaen, llawer ohonynt â swyddi deul naill ai mewn portffolios addysg, ymgysylltu neu iechyd yr amgylchedd ehangach. Dylid nodi bod y

ddogfen hon yn cyfeirio at weithdrefnau gorfodi'n ymwneud â gollwng sbwriel a baw cŵn yn unig, nid tipio anghyfreithlon (yr ydym yn ymdrin ag ef ar wahân).

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn credu mai diben gorfodi ddylai fod i:

- ☐ Atal troseddwy'r posibil
- ☐ Cosbi troseddwy'r
- ☐ Codi ymwybyddiaeth bod gweithred benodol yn anghyfreithlon
- ☐ Mynd i'r afael, ynghyd â strategaethau eraill, â materion LEQ parhaus y mae ymyriadau eraill wedi cael effaith gyfyngedig arnynt.
- ☐ Hybu newid cadarnhaol mewn ymddygiad yn yr hirdymor

Dylid nodi nad yw cyhoeddi nifer fawr (neu gynyddol) o FPN yn golygu bod gorfodi wedi 'llwyddo' gan fod y drosedd yn dal i ddigwydd. Er mwyn ystyried unrhyw ymyrraeth (h.y. nid gorfodi yn unig) yn llwyddiannus, dylai nifer yr achosion leihau dros amser.

Am y rheswm hwn, credwn ei fod yn hanfodol bod strategaethau gorfodi'n cael eu hadolygu yn rheolaidd er mwyn iddynt allu addasu i'r broblem sy'n benodol i'r ardal honno, yn hytrach na'r ymagwedd gyffredinol a geir ar hyn o bryd sy'n canolbwyntio ar y boblogaeth ddwysaf. Un ffordd o dargedu adnoddau gorfodi'n well fyddai trwy nodi'r materion parhaus neu'r meysydd sy'n peri problem trwy ddata LEAMS neu fathau eraill o wybodaeth leol fel bod ymarfer gorfodi'n cael ei arwain gan wybodaeth.

Mae contractau preifat ar gyfer gorfodi staff i gyhoeddi FPN ar gyfer baw cŵn a/ neu ollwng sbwriel wedi denu sylw'r cyfryngau a dadleuon yn y blynyddoedd diweddar. Mae staff gorfodi wedi nodi manteision ac anfanteision gorfodi preifat a chyhoeddus a dylid ystyried y mater hwn yn ofalus gan awdurdodau lleol ac mewn ymgynghoriad agos â staff rheng flaen perthnasol sydd â'r profiad, y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflwyno hyn yn effeithiol 'ar lawr gwlad'. Dylai unrhyw benderfyniad neu strategaeth orfodi hefyd ystyried y posibilrwydd o ganlyniadau nas bwriadwyd a chreu rhwystrau strwythurol anfwriadol sydd yn dad-ysgogi ataliaeth. Er enghraifft: 'roedd ffurfio contractau allanol yn golygu nad oes gan rai contractwyr "*unrhyw gymhelliant i leihau'r galw nac arloes*".^v Yn yr un modd, gan fod dyluniad rolau swyddogion yn agos gysylltiedig â mathau penodol o weithgareddau, er enghraifft 'swyddogion gorfodi' a 'swyddogion addysg'. Nid oes digon o gymhelliant yn aml i'r swyddogion hyn ganolbwyntio ar strategaethau ataliol mwy hollstaidd sydd y tu hwnt i'w rolau neu gynnyrch penodol.^{vi}

Yn ddelfrydol, byddai contractwyr preifat a ddefnyddir ar gyfer gorfodi'r materion hyn yn cael eu hyfforddi i ymgysylltu a rheoli gwrthdaro ymysg y sgiliau niferus eraill, a fyddai fel arfer yn bresennol mewn tîm awdurdod lleol.

Mae mewnbyn gan ein swyddogion ar y ddaear wedi awgrymu y gallai fod diffyg ymwybyddiaeth o hyd o'r materion cysylltiedig ac mae'n argymhell 'ymagwedd feddal gyda ffocws ar addysg gan awdurdod lleol (neu staff wedi eu hyfforddi'n briodol) i ymgysylltu yn y tymor byr'. Gallai PCSO gael rôl mwy gweithredol yn cyflwyno hyn am ei fod yn cyd-fynd â'u rôl ac mae ganddynt hefyd bwerau gorfodi.

Mae angen adnoddau a staff medrus, adnoddau cyfreithiol ac amser llys a gweinyddu ar orfodi, p'un â chaiff ei gyflwyno trwy'r sector cyhoeddus neu breifat, er mwyn sicrhau bod y broses yn dod i ben. Nid yw'n ymarfer fydd yn codi arian sylweddol ac mae gorfodi fel ffordd o wneud arian yn annhebygol o lwyddo na bod yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Yn ogystal, datgelodd arolwg ar FPN gan Gadwch Gymru'n Daclus yn 2015 fod yr asiantaethau niferus oedd â'r grym i orfodi yn ymwneud â throseddau amgylcheddol yn gwneud hynny'n aml, mae hyn yn cynnwys PCSO sydd yn aml yn y cymunedau lle mae materion LEQ yn fwy o broblem. Credwn y bydd mwy o ymgysylltu â'r heddlu ar draws Cymru ar effaith troseddau amgylcheddol yn cefnogi gorfodi ac ymdrechion ymgysylltu ac yn

codi ymwybyddiaeth mewn cymunedau anodd eu cyrraedd. Mae hyfforddi ynadon ar effaith troseddau amgylcheddol hefyd wedi cael ei nodi gan staff gorfodi fel gofyniad yn y dyfodol er mwyn i brosesau llys gymryd hyn i ystyriaeth wrth orchymyn talu dirwyon.

Mae hyn yn ymwneud â'r safbwynt bod dirwyon am droseddau amgylcheddol mewn gwirionedd yn rhy isel ac yn golygu bod rhai ymdrechion gorfodi yn aneffeithiol am y dylai FPN fod yn llawer uwch i adlewyrchu effaith troseddu a chost clirio i'r cyhoedd. Ar draws y byd, lle mae deddfwriaeth yn caniatáu hynny, mae dirwyon am ollwng sbwriel yn amrywio o £50 mewn rhai rhanbarthau o'r DU i'r hyn sy'n gyfwerth â rhyw £1120 yn Singapôr. Yn y DU, mae eu dirwyon yn amrywio yn dibynnu ar nifer y collfarnau ac yn aml yn cynnwys rhyw elfen o wasanaeth cymunedol ar yr ail gollfarn. Mewn rhai taleithiau gall hyn arwain at hyd at 6 mis yn y carchar.

Yn yr hirdymor, mae pob ymdrech i godi ymwybyddiaeth ac i ymgysylltu, yn arbennig y cymunedau mwyaf difreintiedig, yn rhybuddio y dylid ystyried cynyddu cost FPN a/ neu gosbau eraill i adlewyrchu'r gost i gymdeithas. Fodd bynnag, ni ddylid gweld hyn fel ffordd o gynyddu incwm neu yn lle ymdrechion parhaus i addysgu.

Ni ddylid amcangyfrif grym cymunedau i 'hunan-blismona' ymddygiad anghyfrifol yn rhy isel chwaith. Gall ymgysylltu effeithiol sydd yn hybu'r 'norm cymdeithasol' ac yn cipio pŵer 'pwysau gan gyfoedion' fod yn strategaeth hirdymor ond mae'n debygol o fod yn un effeithiol.

Yn y pen draw, mae Cadwch Gymru'n Daclus yn credu, er mwyn i orfodi weithio wrth fynd i'r afael â sbwriel a baw cŵn, bod angen iddo fod yn rhan o strategaeth ehangach ar gyfer atal a newid ymddygiad a bod yn rhaid ei wneud yn 'fwy deallus', ac mewn ffordd wedi ei thargedu'n well er mwyn cynyddu effeithiolrwydd atal. Mae ardaloedd gwledig yn cyflwyno her o ran gorfodi ac yn cyflwyno materion gwahanol i'r rheiny mewn awdurdodau trefol. Yma, efallai, y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio adnoddau gorfodi yw canolbwyntio ar fynd i'r afael â/ymchwilio i dipio anghyfreithlon yn unig neu gallai canolbwyntio ar FPN ar brif ffyrdd gael ei ystyried yn flaenoriaeth. Dylai pob awdurdod bwysoli'r heriau sy'n benodol i'w hardal nhw a datblygu atebion yn unol â hynny.

Trwy ddadansoddi cwynion y cyhoedd neu fapio data LEAMS, mae'n bosibl i awdurdodau lleol nodi meysydd neu faterion sy'n achosi problemau yn eu rhanbarth. Efallai nad y dref neu ganol y ddinas fydd hyn ond gallai fod yn ardaloedd ymylol neu ystadau diwydiannol, parciau neu ardaloedd siopa y tu allan i'r dref. Er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, dylid canolbwyntio ymdrechion ar yr ardaloedd hyn sy'n achosi problemau a'u hadolygu yn rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw'r broblem wedi symud – ac wrth wneud hynny, dylai gorfodi 'ddilyn unrhyw broblem barhaus hyd nes nad yw'r broblem yn parhau mwyach'.

ⁱ APSE, 2017, 'Park Life: Street Life: Managing demand in the public realm' [http://www.apse.org.uk/apse/assets/File/Documents/Park%20Life%20\(web\).pdf](http://www.apse.org.uk/apse/assets/File/Documents/Park%20Life%20(web).pdf)

ⁱⁱ APSE, 2017, *Ibid*

ⁱⁱⁱ Ipsos Mori (2011) 'The Effectiveness of Enforcement on Behaviour Change' <https://www.ipsos-mori.com/Assets/Docs/Publications/sri-manchestereffectiveness-of-enforcement-kbt-2011.pdf>

^{iv} Ipsos Mori (2011), *Ibid*

^v APSE, 2017, *Ibid*

^{vi} APSE, 2017, *Ibid*



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

© Copyright Keep Wales Tidy 2017 All rights reserved

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13

